

- 
- A photograph of David Cameron, leader of the Conservative Party, speaking at a wooden podium. He is wearing a dark suit and a blue tie, and is gesturing with his right hand. The background is dark with blue and red lighting.
- ✓ **ECONOMI GRYFACH
GARTREF**
 - ✓ **PARCH NEWYDD
DRAMOR**
 - ✓ **NEWID GWIRIONEDDOL
YN EWROP**

MANIFFESTO ETHOLIAD EWROP 2014 Y CEIDWADWYR CYMREIG

NEWID GWIRIONEDDOL YR YDYM WEDI'I SICRHAU:

- ✓ Y toriad cyntaf erioed yng nghyllideb yr UE, gan arbed £8.15 biliwn i drethdalwyr Prydain
- ✓ Wedi sicrhau nad yw Prydain yn rhan o becynnau achub ardal yr Ewro
- ✓ Wedi gwrthod cytuno i gytundeb a fyddai wedi niweidio buddiannau Prydain
- ✓ Wedi lleihau biwrocratiaeth i fusnesau ym Mhrydain
- ✓ Wedi cymryd camau i unioni ein system fewnfudo ac wedi cyfyngu ar hawl ymfudwyr i gael buddiannau.

NEWID GWIRIONEDDOL Y BYDDWN YN EI SICRHAU:

- Refferendwm mewn-allan ar aelodaeth Prydain o'r UE
- Mwy o bwerau yn ôl i Brydain
- Gwell bargaen i drethdalwyr Prydain
- Rheolaeth o hyd dros ein ffiniau a gwrthsefyll twristiaeth budd-daliadau
- Mwy o reolaeth dros gyfiawnder a materion cartref
- Mwy o fasnach a chadw annibyniaeth economaidd – drwy ddweud na i'r Ewro ac 'undeb cynyddol agosach'

**ECONOMI GRYFACH GARTREF,
PARCH NEWYDD DRAMOR,
NEWID GWIRIONEDDOL YN EWROP.**

DIM OND GYDA'R CEIDWADWYR



DAVID CAMERON AS
Prif Weinidog ac Arweinydd
y Blaid Geidwadol

ER MWYN CAEL NEWID GWIRIONEDDOL YN EWROP, PLEIDLEISIWCH I'R CEIDWADWYR

Mae gennym neges glir iawn yn yr etholiadau Ewropeaidd hyn: os ydych am weld newid gwirioneddol yn Ewrop, pleidleisiwch i'r Ceidwadwyr.

Y Ceidwadwyr yw'r unig blaid sydd â hanes o sicrhau newid yn Ewrop – a'r unig blaid a all ac a fydd yn cynnal refferendwm mewn-allan ar aelodaeth Prydain o'r UE.

Mae angen newid gwirioneddol yn Ewrop

Mae llawer o bobl ym Mhrydain – a minnau yn eu plith – yn teimlo'n gryf fod yn rhaid i'r Undeb Ewropeaidd newid.

Rwy'n clywed dro ar ôl tro gan bobl sy'n sôn am eu rhwystredigaethau ynglŷn â'r UE: mae'n rhy fiwrocraidaidd ac yn rhy annemocrataidd. Mae'n ymyrryd gormod yn ein bywydau bob dydd, ac mae graddfa ymfudo o'r UE a ysgogwyd gan aelod-wladwriaethau newydd yn ymuno yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith enfawr ar gymunedau lleol.

I bobl ifanc sydd angen i'r UE greu mwy o swyddi, i gymunedau sy'n wynebu pwysau ar wasanaethau cyhoeddus a thai ac i fusnesau sy'n ymgodymu â biwrocraatiaeth, mae angen newid gwirioneddol yn Ewrop yn ddybryd.

Rwy'n deall y pryderon hyn yn llwyr ac yn eu rhannu. Fel y mae llawer yn ei wneud ledled Ewrop. Gwyddom os ydym am lwyddo mewn byd hynod gystadleuol, lle mae gwledydd yn y De a'r Dwyrain yn mynd yn gynyddol bwerus yn economaidd, fod yn rhaid i'r UE ddod yn fwy cystadleuol, neu

o leiaf beidio ag atal Prydain rhag dod yn fwy cystadleuol. Nid 'undeb cynyddol agosach' na biwrocraatiaeth fythol gynyddol sydd eu hangen arnom, ond ffyrdd cynyddol o greu busnesau newydd, masnachu a llunio cytundebau.

Yn y pen draw, nid cytundebau newydd a datganiadau swyddogol sydd wrth wraidd diwygio'r UE, ond swyddi newydd a chyfleoedd newydd – gobaith newydd. Mae'n ymwneud â mwy o bobl ifanc yn gwybod beth yw diben a balchder mynd i'r gwaith yn y bore a llwyddo mewn bywyd.

Er mwyn adfer ymddiriedolaeth y bobl, mae'n rhaid i'r UE ddangos ei fod yn helpu pobl i ffynnu.

Ein cynllun economaidd hirdymor

Mae newid Ewrop yn y ffordd hon yn hanfodol i gynllun economaidd hirdymor Prydain. Mae'r Llywodraeth o dan fy arweiniad i yn rhoi cynllun clir ar waith i drawsnewid ein heconomi a rhoi'r cyfle gorau posibl i lwyddo i bawb. Cynllun i greu mwy o swyddi ydyw, a rhoi mwy o obaith i bobl ifanc a rhoi mwy o sicrwydd ariannol a thawelwch meddwl i deuluoedd ymhob rhan o Brydain.

Mae'r cynllun yn gweithio'n barod. Mae ein diffyg wedi gostwng, mae ein heconomi yn tyfu, mae 1.3 miliwn yn fwy o bobl mewn gwaith – sef 1.3 miliwn o bobl sy'n mynd

i gysgu bob nos gan wybod bod ganddynt gyflog rheolaidd. Prydain yw'r un o'r economïau sy'n tyfu fwyaf yn Ewrop.

Ond rydym am fynd ymhellach, a chreu mwy o swyddi a mwy o gyfleoedd – ac yn sicr gall Undeb Ewropeaidd wedi'i ddiwygio ein helpu yn hynny o beth. Yn yr UE ei hun ceir y farchnad fwyaf o ran maint a mwyaf cyfoethog ar y blaned. Mae 500 miliwn o ddefnyddwyr ar garreg y drws. Mae'r UE wrthi'n ceisio datblygu mwy o fasnach â Gogledd America ac Asia – gan addo mwy o gyfoeth a mwy o waith yma yn y DU. Mae'r wobwr yn enfawr, ond dim ond os yw'r UE yn ddigon deinamig a hyblyg i'w cheisio.

A gan fod gennym economi gryfach gartref bellach, mae gennym barch newydd dramor – i frwydro dros newid gwirioneddol yn Ewrop.

Hanes o sicrhau newydd

Gwyddom pa newidiadau rydym am eu gweld. Ac yn wahanol i bob gwlad arall sy'n sefyll yn yr etholiadau hyn, nid sôn am 'newid gwirioneddol' yr ydym – rydym wedi'i sicrhau.

Rhoddais fetu ar gytundeb nad oedd yn fuddiol i Brydain. Rydym wedi torri cyllideb yr UE am y tro cyntaf yn ei hanes, gan arbed biliynau o bunnau i drethdalwyr Prydain. Tra roedd Llafur, yn wangalon, wedi ymrwymo i

becynnau achub i ardal yr Ewro, rydym ni wedi sicrhau nad oedd Prydain yn rhan ohonynt. Gwnaethom wrthsefyll treth ar drafodion ariannol a fyddai wedi bod yn niweidiol i'n heconomi. Gwnaethom ddiogelu ein had-daliad – tra roedd Llafur wedi ildio £7 biliwn.

Nid oedd unrhyw rai o'r pethau hyn yn anochel. Gwnaethant ddigwydd am fod y Ceidwadwyr yn Ewrop wedi brwydro'n galed dros fuddiannau Prydain. A dyna'n union y byddwn yn parhau i'w wneud yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod.

Dim ond y Ceidwadwyr fydd yn cynnal refferendwm mewn-allan

Mae'r UE bellach yn chwarae rhan fawr ym mywyd pob un ohonom. Mae'r rôl honno wedi newid yn sylweddol ers y refferendwm yn 1975 ar ein haelodaeth o'r hyn a

fu'n Farchnad Gyffredin yn unig, y tro diwethaf i bobl Prydain gael cyfle i leisio barn. Mae rhywbeth sy'n egwyddor sylfaenol i mi fod aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn dibynnu ar gydsyniad pobl sofran Prydain – cydsyniad sydd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi mynd yn simsan iawn.

Dyna pam, os mai fi fydd Prif Weinidog y DU ar ôl yr etholiad, byddaf yn negodi setliad newydd i Brydain yn Ewrop ac yna yn gofyn i bobl Prydain: a ydych am aros yn yr UE ar y sail hon, neu adael? Byddaf yn cynnal refferendwm mewn-allan cyn diwedd 2017, a pharchu'r penderfyniad.

Mewn gwrthgyferbyniad, ni fydd Llafur na'r Democratiaid Rhyddfrydol yn brwydro dros Brydain ac maent yn gwrthod rhoi dewis i bobl mewn refferendwm. Nid oes gan UKIP unrhyw beth difrifol i'w gynnig ac, yn syml, ni all

gyflawni unrhyw un o'i haddewidion. Felly mae'r dewis yn yr etholiadau hyn yn glir: ni fydd Llafur na'r Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoi cyfle i bobl leisio barn. Ni all UKIP roi cyfle i bobl leisio barn. Dim ond agenda o ymwahanu y gall Plaid Cymru ei chynnig, sy'n mynd yn groes i fuddiannu'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

Dim ond y Ceidwadwyr a all sicrhau newid gwirioneddol yn Ewrop – a dim ond y Ceidwadwyr a all ac a fydd yn cynnal y refferendwm mewn-allan hwnnw.



DAVID CAMERON AS
Prif Weinidog ac Arweinydd y Blaid Geidwadol

BLAENORIAETHAU CEIDWADOL I EWROP

Dyma rai o'r newidiadau allweddol y byddwn yn brwydro drostynt:

- Pwerau yn cael eu dychwelyd o Frwsel, nid eu rhoi i Frwsel, a thorri cost gweinyddiaeth yr UE.
- Y gallu i seneddau cenedlaethol gydweithio i atal unrhyw ddeddfwriaeth Ewropeaidd ddiangen.
- Busnesau yn cael eu rhyddhau o fiwrocratiaeth ac yn manteisio ar gryfder marchnad yr UE ei hun – y farchnad fwyaf o ran maint a mwyaf cyfoethog ar y blaned – er mwyn datblygu mwy o fasnach â Gogledd America ac Asia.
- Galluogi ein heddluoedd a'n systemau cyfiawnder i ddiogelu dinasyddion Prydain, heb ymyrraeth ddiangen gan y sefydliadau Ewropeaidd, gan gynnwys Llys Hawliau Dynol Ewrop.
- Rhyddid i symud yn ddirwystr er mwyn ymgymryd â gwaith, nid rhyddid i symud er mwyn cael budd-daliadau mwy hael.
- Cefnogaeth i barhau i ehangu'r UE i aelodau newydd, ond gyda systemau newydd ar waith i atal ymfudo ar raddfa fawr ar draws y cyfandir.
- Rhoi terfyn ar ein hymrwymiad i 'undeb cynyddol agosach', fel sydd wedi'i ymgorffori yn y Cytundeb, y mae'n rhaid i bob un o wledydd yr UE ymrwymo iddo. Efallai ei fod yn apelio at rai gwledydd. Ond nid yw'n iawn i Brydain, ac mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn gaeth iddo mwyach.

Mewn geiriau eraill, ie i'r Farchnad Sengl. Ie i fasnach rydd fyrlymus. Ie i gydweithio lle rydym yn gryfach gyda'n gilydd nac ar ein pen ein hunain, fel rydym yn ei wneud heddiw yn achos Wcrain. Ie i deulu o genhedloedd, pob un yn rhan o Undeb Ewropeaidd – ond, yn hollbwysig, y mae eu buddiannau wedi'u gwarantu p'un a ydynt yn rhan o'r Ewro ai peidio.

Na i 'undeb cynyddol agosach'. Na i bwerau yn cael eu rhoi o hyd i Frwsel. Na i ymyrraeth ddiangen. A na, wrth gwrs i'r Ewro, i fod yn rhan o becynnau achub i ardal yr Ewro neu syniadau fel Byddin Ewropeaidd.

Yn hollbwysig, bydd gan bobl Prydain ddewis clir: aros yn yr Undeb Ewropeaidd neu ei adael.

Rhaid i sofraniaeth barhau yn nwylo pobl Prydain drwy ein sefydliadau democrataidd ein hunain.

Po fwyaf o ASEau Ceidwadol a etholir ym mis Mai, y mwyaf y gallwn ymgyrchu dros ein cynllun er newid – a'i roi ar waith.



SYED KAMALL ASE
Arweinydd y Ceidwadwyr
yn Senedd Ewrop

RHAGAIR GAN ARWEINYDD Y CEIDWADWYR YN SENEDD EWROP

Mae pobl Prydain am gael gwell bargaen yn yr Undeb Ewropeaidd ac maent am gael yr hawl i benderfynu p'un a ydynt am aros yn yr UE neu ei adael yn gyfan gwbl. Mae ein Prif Weinidog, David Cameron, wedi'i gwneud yn glir, ac wedi nodi cynllun i sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae'n gynllun y bydd ASEau Ceidwadol yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w roi ar waith.

Rhaid i ni wynebu'r gwir. Oherwydd y Cytundebau a lofnodwyd gan Lafur pan oeddent mewn grym – Amsterdam, Nice a Lisbon – mae gan Senedd Ewrop bŵer gwirioneddol. Mae bellach yn gwneud y rhan fwyaf o gyfreithiau'r UE ar y cyd â llywodraethau'r 28 o wledydd sy'n aelodau o'r UE. Y Ceidwadwyr yw'r unig blaid sydd â chynllun, a fydd yn mynd yno a brwydro dros fuddiannau Prydain.

Mae gan y Ceidwadwyr hanes sy'n profi y gallwn gyflawni dros Brydain. Dywedodd pobl na allem fyth dorri cyllideb yr UE, ond gwnaethom hynny. Dywedodd pobl na fyddem byth yn gallu osgoi bod yn rhan o becynnau achub gwledydd ardal yr Ewro ond gwnaethom hynny. Dywedodd pobl na allai'r UE fyth newid, na châl'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin trychinebus a'i arfer cywilyddus o gael gwared ar bysgod hollol fwyfadwy fyth ei newid, ond rydym wedi llwyddo i'w ddiwygio.

Mae ein diwygiadau yn cynnig cyfleoedd newydd enfawr i fusnesau ym Mhrydain. Rydym wedi bod ar flaen y gad o ran

llunio cytundebau masnach rydd â De Korea, Canada a Singapôr, ac rydym yn gweithio i sicrhau cytundebau ag India, Japan a'r Unol Daleithiau. Rydym wedi arwain rhaglen i dorri biwrocratiaeth yr UE a'i ymyrraeth ym mywydau pobl.

Felly bydd y bobl a etholir gennych ar 22ain Mai yn gwneud gwahaniaeth.

Os ydych am weld mwy o firocratiaeth gan yr UE, mwy o ymyrraeth gan Frwsel, cyllideb fwy gan yr UE a dim refferendwm – pleidleisiwch i'r Blaid Lafur. Y Blaid Lafur sy'n trosglwyddo un pŵer ar ôl y llall i'r UE ac sydd wedi gwrthod rhoi pleidlais i bobl Prydain, a'r Blaid Lafur sydd wedi agor y drws i ymfudo heb ei reoli. Mae Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwrthwynebu ein cynllun, yn gwrthod amddiffyn buddiannau Prydain ac yn gwrthod rhoi cyfle i bobl Prydain leisio barn.

Mae ASEau UKIP yn fwy na pharod i hawlio'r cyflog a'r treuliau, ond ni wnânt bleidleisio i amddiffyn buddiannau Prydain.

Mae gan y Ceidwadwyr gynllun: diwygio'r ffordd y mae'r Undeb Ewropeaidd yn gweithio, ailnegodi er mwyn dychwelyd pwerau i Brydain ac yna refferendwm hanesyddol lle y gall pobl Prydain gael cyfle i leisio barn am y tro cyntaf ers 1975. Rwy'n gofyn i chi am eich pleidlais fel y gallwn roi'r cynllun hwn ar waith.

Mae angen i Brydain gael pobl yn y fan a'r lle sy'n amddiffyn ein buddiannau ym Mrwsel. Mae David Cameron wedi amlinellu cynllun clir, ac mae ganddo dim cadarn o bobl a fydd yn ymdrechu i'w roi ar waith. Os ydych am weld newid gwirioneddol yn Ewrop, ASEau sy'n amddiffyn buddiannau Prydain, a'r hawl i benderfynu ar ddyfodol Prydain yn Ewrop mewn refferendwm – pleidleisiwch i'r Ceidwadwyr.



SYED KAMALL ASE
Arweinydd y Ceidwadwyr
yn Senedd Ewrop



DR KAY SWINBURNE ASE
ASE Ceidwadol dros Gymru

RHAGAIR GAN Y CEIDWADWYR CYMREIG

Mae pleidlais dros y Ceidwadwyr Cymreig ar Fai 22ain yn bleidlais i chi gael dweud eich dweud ar ddyfodol ein perthynas ag Ewrop.

Mae'r pleidiau eraill yn gwrthod gadael i bobl Prydain gael dweud eu dweud.

Erbyn hyn, mae gan bobl Prydain ddewis clir iawn: os ydych chi eisiau refferendwm ynglŷn ag a ddylai Prydain aros yn yr UE neu ei adael, dim ond y Blaid Geidwadol sy wedi'i hymrwymo at gynnal y refferendwm honno.

Mae ein Prif Weinidog David Cameron wedi dangos arweinyddiaeth gref trwy osod cynllun clir i aildrafod aelodaeth Prydain o'r Undeb Ewropeaidd.

Rydyn ni'n deall ac yn rhannu pryderon pobl am yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein busnesau ni'n gwerthfawrogi'r Farchnad Sengl. Ond maen nhw'n cael graddfa'r ymyrraeth Ewropeaidd yn ein bywydau bob dydd yn ormod.

Mae gan y Blaid Geidwadol hanes gref o amddiffyn buddiannau Cymru a Phrydain yn Ewrop. Buon ni'n

helpu i dorri cyllideb yr UE am y tro cyntaf, gan arbed £8.15 biliwn i drethdalwyr Prydain, ac aethon ni â'r DU y tu allan i gronfeydd achub y Parth Ewro. Os ydych chi eisiau cadw Prydain allan o'r Ewro, mae'n rhaid i chi bleidleisio i'r Ceidwadwyr. Mae angen ar Gymru bobl ym Mrwsel a fydd yn sefyll i fyny dros ein buddiannau ni. Sylfaen ein hanes cryf yw ein tîm cryf o ASEau Ceidwadol ym Mrwsel sy'n cynrychioli buddiannau pobl Prydain gartref.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod fod Cymru'n elwa ar ein dolenni ag Ewrop fel rhan o Ddeyrnas Unedig gref. Ond rydyn ni hefyd yn gwybod fod pobl heddiw yn teimlo fod yr UE yn teithio mewn cyfeiriad na chytunon nhw â fe. Mae cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer aelodaeth Prydain o dan straen.

Mae cynllun y Ceidwadwyr yn glir; mae David Cameron wedi addo ceisio setliad o'r newydd ag Ewrop a fydd yn well i Gymru ac yn well i Brydain.

Os bydd y Ceidwadwyr yn ennill yr Etholiad Cyffredinol nesaf, byddwn ni'n trafod setliad o'r newydd gyda'r UE. Byddwn ni wedyn yn cynnal refferendwm i mewn-allan cyn diwedd 2017.

Y Blaid Geidwadol yw'r unig blaid a fydd yn rhoi'r dewis hwnnw i chi.

Ni fydd Llafur na'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwneud hynny. Ni all UKIP na Phlaid Cymru wneud hynny.

Ni fydd anwybyddu'r cwestiwn am ddyfodol Ewrop a rôl Prydain yn rhan ohoni yn gwneud iddo fynd i ffwrdd. Bydd y Blaid Geidwadol yn gadael i Gymru ac i Brydain benderfynu.



DR KAY SWINBURNE ASE
ASE Ceidwadol dros Gymru

NEWID GWIRIONEDDOL: CYNNAL REFFERENDWM MEWN-ALLAN AR AELODAETH PRYDAIN O'R UE A SETLIAD NEWYDD YN EWROP

Mae gan bobl Prydain ddewis clir iawn bellach: os ydych am gael refferendwm i benderfynu a ddylai Prydain aros yn yr UE neu ei adael, dim ond y Blaid Geidwadol a all ac a fydd yn cynnal un. Nid yw Llafur na'r Democratiaid Rhyddfrydol am weld newid ac maent yn gwrthod rhoi cyfle i bobl leisio barn ac, yn syml, ni all UKP gyflawni unrhyw un o'i haddewidion.

Mae gennym hanes o newid

gwirioneddol a chyflawni yn Ewrop nad oes gan yr un Llywodraeth flaenorol arall. Rydym wedi torri'r gyllideb, gan leihau cost Ewrop i drethdalwyr Prydain. Rydym wedi gwrthod cytuno i gytundeb nad oedd er budd y wlad. Rydym wedi tynnu trethdalwyr Prydain yn ôl o rwymedigaethau i achub yr ewro.

Mae'r Ceidwadwyr am fynd hyd yn oed ymhellach drwy negodi perthynas

well â'r UE. Os enillwn yr etholiad cyffredinol nesaf, byddwn yn cynnal refferendwm mewn-allan i bobl Prydain erbyn diwedd 2017.

Mae Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn awyddus i amddifadu pobl Prydain o'u hawl i gael refferendwm, ond nid yw UKIP mewn sefyllfa i gynnal un. Dim ond y Ceidwadwyr a all sicrhau newid gwirioneddol.

YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI:

- ✓ Dim ond ni, o blith y tair prif blaid, sydd wedi ymrwymo'n ffurfiol i gynnal refferendwm mewn/allan yn ystod tymor nesaf Senedd y DU.
- ✓ Rydym wedi torri cyllideb yr UE am y tro cyntaf, tra'n diogelu ad-daliad Prydain, gan arbed £8.15 biliwn i drethdalwyr Prydain.
- ✓ Rydym wedi atal cyfraniad Prydain yn y pecynnau achub i ardal yr Ewro, a thrwy hynny wedi sicrhau'r achos cyntaf o ddychwelyd pŵer o Frwsel.
- ✓ Rydym wedi gwrthod cytuno i gytundeb nad oedd yn fuddiol i Brydain.
- ✓ Rydym wedi sicrhau bod yn rhaid i benderfyniadau allweddol ynglŷn ag undeb bancio gael cydsyniad Prydain, gan ddiogelu ein sefyllfa yn y farchnad sengl a chynnal cystadleurwydd ein diwydiant gwasanaethau ariannol sy'n arwain y byd.
- ✓ Mae Prydain wedi arwain o ran arfer pwerau 'cerdyn melyn', sy'n adfer atebolrwydd democratiaid dros benderfyniadau'r UE drwy alluogi seneddau cenedlaethol i orfodi'r Comisiwn Ewropeaidd i ailystyried cyfreithiau newydd arfaethedig yr UE.
- ✓ Yn unol â'n haddewid, mae'r Blaid Geidwadol wedi sefydlu grŵp newydd yn Senedd Ewrop – Ceidwadwyr a Diwygwyr Ewrop – sy'n golygu am y tro cyntaf erioed fod grŵp prif ffrwd yn Senedd Ewrop sydd wedi ymrwymo i Ewrop o genedl-wladwriaethau yn hytrach na Ewrop ffederal.

YR HYN A WNAWN:

- Cynnal refferendwm mewn-allan ar aelodaeth Prydain o'r UE erbyn diwedd 2017, am y tro cyntaf ers 1975 bydd pobl Prydain yn cael cyfle i leisio barn.
- Rhoi terfyn ar ymrwymiad Prydain i 'undeb cynyddol agosach'. Mae'n brosiect polisi nad yw'n iawn i Brydain, ac mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn rhan ohono mwyach.
- Gwneud penderfyniadau drosom ni ein hunain, gan weithio gyda'n partneriaid Ewropeaidd lle mae'n synhwyrol gwneud hynny a helpu i sefydlu egwyddor newydd yn yr UE: 'Cenedlaethol lle bo modd. Ewrop lle bo rhaid.'
- Sicrhau mwy o rôl i lywodraethau cenedlaethol wrth bennu agenda'r UE.
- Cadw cyfanrwydd y Farchnad Sengl drwy fynnu bod y gwledydd hynny sydd wedi cael eu harian cyfred eu hunain yn cael eu diogelu.
- Parhau i bwysu am un lleoliad i Senedd Ewrop, fel na chaiff eich trethi eu gwastraffu ar gynnal dwy set gostus o adeiladau swyddogol.
- Parhau â'r pwysau tuag i lawr ar wariant a mwy o graffu ar gyllideb a chyfrifon yr UE.
- Atgyfnerthu pŵer y 'cerdyn melyn' i seneddau cenedlaethol a chyflwyno system o 'gardiau coch' fel y gall seneddau cenedlaethol ddod ynghyd i atal deddfwriaeth nad oes angen cytuno arni ar y lefel Ewropeaidd ac adfer atebolrwydd democrataidd dros benderfyniadau'r UE. Rydym hefyd yn cefnogi cynigion Senedd yr Iseldiroedd i roi mwy o reolaeth dros ddeddfwriaeth yr UE i seneddau cenedlaethol.



**POLLING
STATION**

Byddwn ni'n rhoi
refferendwm i mewn-allan
ar Ewrop i bobl Prydain
cyn diwedd 2017

NEWID GWIRIONEDDOL: RHOI EIN CYNLLUN ECONOMAIDD HIRDYMOR AR WAITH YN EWROP

Y Ceidwadwyr yw'r unig blaid sydd â chynllun economaidd hirdymor i sicrhau dyfodol Prydain:

Lleihau'r diffyg er mwyn i ni ymdrin â'n dyledion, gwarchod ein heconomi yn yr hirdymor a chadw cyfraddau morgais yn isel.

Torri treth incwm a rhewi treth tanwydd er mwyn helpu pobl sy'n gweithio'n galed i fod yn fwy diogel yn ariannol.

Creu mwy o swyddi drwy gefnogi busnesau bach drwy seilwaith gwell a threthi swyddi is.

Capio budd-daliadau lles a lleihau mewnfudo er mwyn i'n heconomi gyflawni dros bobl sydd am weithio'n galed a chwarae yn ôl y rheolau.

Brwydro dros yr ysgolion a'r sgiliau gorau i bobl ifanc fel y gall y genhedlaeth nesaf lwyddo yn y ras fyd-eang.

Mae'r cynllun hwn yn gweithio'n barod. Mae ein heconomi'n tyfu. Disgwylir i'r diffyg gael ei haneru. Mae dyled yn is. Mae dros 1.7 miliwn o swyddi yn y sector preifat wedi cael eu creu ers 2010, gyda chyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 79,000 ers yr Etholiad Cyffredinol.

Cannoedd o filoedd o deuluoedd sydd bellach â swyddi da, gwell rhagolygon a mwy o sicrwydd a thawelwch meddwl ynglŷn â dyfodol eu plant.

Er mwyn parhau â'r cynllun hwn, a pharhau i gyflawni dros bobl Prydain, mae angen i ni weld newid gwirioneddol ym Mrwsel. Mae angen i ni weld newid gwirioneddol i wobrwyo'r rhai sy'n gweithio'n galed ac sy'n chwarae yn ôl y rheolau; er mwyn cefnogi ein busnesau a chreu mwy o swyddi da â chyflog da; er mwyn cael gwerth gwirioneddol am bob ceiniog trethdalwyr sy'n mynd i Ewrop. Dim ond y Ceidwadwyr a all sicrhau'r newid hwnnw.

YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI:

- ✓ Rydym wedi torri cyllideb yr UE am y tro cyntaf erioed, ac wedi pwysu am well gwerth am arian i drethdalwyr Prydain ym mhob gwariant.
- ✓ Rydym wedi arwain y gwaith o ddiogelu cwmnïau bach a chanolig er mwyn sicrhau na fydd lluo o ddeddfwriaethau'r UE yn berthnasol iddynt mwyach.
- ✓ Rydym wedi dadlau dros system batentau Ewropeaidd ac wedi sicrhau Llys Patentau Ewropeaidd wedi'i leoli yn Llundain, a fydd yn cynhyrchu hyd at £200 miliwn y flwyddyn i economi Prydain.
- ✓ Rydym wedi atal Prydain rhag bod yn ddarostyngedig i Dreth ar Drafodion Ariannol drwy'r UE cyfan, a fyddai wedi bod yn niweidiol i gynilion a phensiynau ac wedi peri i swyddi ym Mhrydain ac Ewrop gael eu symud i'r Unol Daleithiau ac Asia, ac wedi gwrthwynebu un ateb i bawb o ran trethiant Ewropeaidd.
- ✓ Rydym wedi sicrhau bod y broses o wneud cais am arian ymchwil Ewropeaidd yn fwy tryloyw gan sicrhau bod sefydliadau ymchwil gorau Cymru yn elwa drwy gystadlu ar delerau cyfartal.
- ✓ Rydym wedi atal gwaharddiad Ewropeaidd ar ymchwil i fôn-gelloedd, a fyddai wedi tanseilio ein gallu i ddod o hyd i ffyrdd o wella'r clefydau mwyaf erchyll ac wedi niweidio diwydiant gwyddorau bywyd Prydain.
- ✓ Rydym wedi bod ar flaen y gad o ran llunio cytundebau masnach rydd â De Korea, Canada a Singapôr, sydd wedi agor marchnadoedd gwerthfawr i allforwyr ym Mhrydain.
- ✓ Rydym wedi bod ar flaen y gad o ran diwygio treth, tryloywder treth ac osgoi treth ledled y byd. Gwnaethom roi hyn wrth wraidd agenda'r G8 gan sicrhau bod 44 o wledydd bellach wedi ymrwmo i weithredu prosesau cyfnewid gwybodaeth awtomatig am faterion treth.

YR HYN A WNAWN:

- Parhau i bwysu am wariant is gan yr UE, diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chronfeydd Strwythurol yr UE ymhellach a chanolbwyntio gwariant yr UE ar dwf a swyddi er mwyn cael gwell gwerth am arian i drethdalwyr Prydain.
- Eangu'r Farchnad Sengl ymhellach drwy ddileu'r rhwystrau sy'n weddill a sicrhau bod y sectorau newydd yn agored i gwmnïau o Brydain.
- Cymryd camau pellach i leihau baich biwrocratiaeth ormodol ar fusnesau drwy symleiddio neu dynnu'n ôl fwy o reolau'r UE lle y bo modd, yn union fel y gwnaethom yn y DU gyda'n Her Biwrocratiaeth a'n rhaglen cyflwyno un a dileu dau.
- Ymdrin ag effeithiau niweidiol y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith, yn enwedig ar ein gwasanaethau cyhoeddus.
- Cefnogi ymdrechion i lunio cytundebau masnach rydd uchelgeisiol â'r Unol Daleithiau, Japan ac India – a all ennill miliynau o swyddi – a phwysu am gytundebau masnach rydd â De-ddwyrain Asia a Mecsico a chytundeb buddsoddi â Tsieina.
- Creu Marchnad Sengl Ddigidol wirioneddol fel y gall entrepreneuriaid technoleg Prydain yn Tech City a thu hwnt werthu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau, sef y gorau yn y farchnad, ledled Ewrop.
- Sicrhau bod rheolau newydd yn targedu ymddygiad diegwyddor yn y diwydiant gwasanaethau ariannol, tra'n diogelu Prydain fel canolfan ragoriaeth fyd-eang mewn bancio a gwrthsefyll ymdrechion i gyfyngu ar weithgareddau dilys gwasanaethau ariannol.
- Galluogi mwy o fyfyrwyr o Brydain i fanteisio ar raglen boblogaidd Erasmus sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr dreulio amser mewn prifysgolion yn yr UE, heb gost ychwanegol iddynt hwy.



EIN CYNLLUN HIRDYMOR I'R ECONOMI

- 1** Lleihau'r diffyg
- 2** Torri treth incwm a rhewi treth ar danwydd
- 3** Creu rhagor o swyddi
- 4** Capiu lles a lleihau mewnfudo
- 5** Ymladd dros yr ysgolion a'r sgiliau gorau i'n pobl ifanc

NEWID GWIRIONEDDOL: O RAN MEWNFUDO

Mae'r Blaid Geidwadol bob amser wedi credu mewn rheolaethau tynn dros ffiniau Prydain. Mae mewnfudo wedi cyfrannu cryn dipyn at gymdeithas, economi a diwylliant Prydain. Ond mae mewnfudo heb ei reoli – megis yr hyn a welsom o dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf – yn ei gwneud hi'n anodd i gynnal cydlyniant cymdeithasol, yn rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, megis tai, a gall effeithio ar gyflogau i bobl ar incwm isel. Rydym yn glir bod lefelau mewnfudo wedi bod yn llawer rhy uchel o dan Lafur. Gwnaeth ymfudo net gynyddu mwy na phedair gwaith rhwng 1997 a 2010, gan wneud cyfanswm o 2.2 miliwn o bobl – sy'n cyfateb i ddwy

ddinas yr un maint â Birmingham.

Ers i ni ddod i rym yn 2010, rydym wedi adeiladu system fewnfudo sy'n gweithio er budd y wlad. Mae ein diwygiadau wedi torri ymfudo o'r tu allan i'r UE i'w lefel isaf ers 1998. Tra bod gwledydd eraill wedi agor eu ffiniau, mae'r Blaid Geidwadol wedi sicrhau nad yw Prydain yn rhan o ardal ffiniau agored Schengen. Ar yr un pryd, rydym yn gwneud yn sicr bod y rhai sy'n dod yma gyda'r gorau a'r disgleiriaf, sy'n meddu ar y sgiliau a'r dalent entrepreneuriaid i helpu i greu swyddi a thwf.

Rydym yn cefnogi rhyddid gweithwyr i symud yn ddirwystr yn Ewrop, sy'n

ei gwneud yn bosibl i bobl o Brydain chwilio am waith ac ennill cwsmeriaid dros y cyfandir, ond mae angen i ni roi terfyn ar dwristiaeth budd-daliadau a chamhawlio. Mae miliwn a hanner o ddinasyddion Prydeinig yn byw mewn gwledydd eraill yn yr UE, yn gweithio, wedi ymddeol neu'n astudio yno. Ac er ein bod yn croesawu pobl weithgar o wledydd Ewropeaidd eraill, ni fyddwn yn derbyn achosion o gamddefnyddio'r rhyddid i symud yn ddirwystr, yn enwedig ar ffurf twristiaeth budd-daliadau gan bobl nad ydynt yn bwriadu gweithio na chyfrannu at gymdeithas. Mae gwledydd eraill yr UE eisoes yn cymryd camau i ymdrin â rhai o'r materion hyn.

YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI:

- ✓ Rydym wedi sicrhau nad yw Prydain yn rhan o ardal ffiniau agored Schengen, sy'n caniatáu i ddinasyddion mewn gwledydd ar dir mawr yr Undeb Ewrop deithio dros ffiniau heb wiriadau pasbort.
- ✓ Rydym wedi gosod rheolau llymach ynglŷn â'r hawl i gael budd-daliadau i bobl o wledydd eraill yr UE, gan wrthsefyll twristiaeth budd-daliadau a'i gwneud yn haws i allgludo pobl nad ydynt yma i weithio ac na allant gynnal eu hunain.
- ✓ Rydym wedi gosod rheolau llymach fyth fel na all neb ddod i'r wlad hon a disgwyl hawlio budd-daliadau allan o waith ar unwaith.
- ✓ Ni fyddwn yn talu budd-daliadau allan o waith o gwbl am y tri mis cyntaf a dim ond wedyn ar ôl asesiadau iaith.
- ✓ Nid ydym yn talu budd-daliadau am gyfnod amhenodol i ymfudwyr yr UE mwyach; rydym wedi newid y rheolau eleni fel na fydd budd-daliadau yn cael eu talu ar ôl chwe mis oni bai bod gan ymfudwyr ragolygon gwirioneddol dda o gael gwaith.
- ✓ Rydym yn gosod prawf llymach y bydd yn rhaid i ymfudwyr sydd am hawlio budd-daliadau ei sefyll – ac os byddant yn methu'r prawf hwnnw, byddwn yn rhoi terfyn ar yr hawl i fudd-daliadau. At hynny, ni fydd ceiswyr gwaith o'r UE sydd newydd gyrraedd yn gallu hawlio budd-dal tai. Byddwn yn amddiffyn hyn yn y llysoedd yn erbyn Brwsel.
- ✓ Rydym yn ymgyrchu yn erbyn busnesau sy'n camfanteisio ar weithwyr mudol drwy beidio â thalu'r isafswm cyflog iddynt – gan roi dirwy o hyd at £20,000 iddynt am bob gweithiwr nad yw'n cael y tâl priodol; dros bedair gwaith yn fwy na'r ddirwy flaenorol.
- ✓ Os nad yw pobl yma i weithio, ond i gardota neu gysgu ar y stryd, cânt eu hallgludo a'u gwahardd rhag dod i mewn i'r wlad eto am 12 mis, oni bai eu bod yn gallu profi bod ganddynt swydd.

YR HYN A WNAWN:

- Pwysu am ddychwelyd at ryddid *gweithwyr* i symud yn ddirwystr; mae'r rhyddid i symud yn ddirwystr yn un o egwyddorion canolog yr UE, ond ni all fod yn rhyddid i symud er mwyn cael budd-daliadau mwy hael.
- Pwysu am roi terfyn ar system lle gall mewnfwudwyr hawlio taliadau lles ar ran eu perthnasau dramor; ni ddylai rhyddid gweithwyr i symud yn ddirwystr olygu bod modd allforio budd-dal plant, a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid Ewropeaidd er mwyn mynd i'r afael â hyn.
- Newid y ffordd y caiff y rhyddid i symud yn ddirwystr ei gyflwyno i wledydd sy'n ymuno â'r UE yn y dyfodol fel na welwn lefel yr ymfudo a welsom yn y gorffennol: er enghraifft, drwy ei gwneud yn ofynnol i wlad newydd gyrraedd lefel incwm neu allbwn economaidd penodol y pen cyn caniatáu rhyddid llawn i symud yn ddirwystr.
- Parhau i groesawu'r myfyrwyr gorau a disgleiriaf o bedwar ban byd, ond parhau i dynnu trwyddedau ffug oddi wrth golegau, yn ychwanegol at y 700 sydd wedi cael eu tynnu'n barod ers 2011.
- Parhau i atal eithafwyr a phregethwyr casineb rhag dod i Brydain a lledu radicaliaeth ac anghyngord cymunedol.

Byddwn ni'n cadw rheolaeth dynn dros
ffiniau Prydain ac ni fyddwn yn derbyn
camddefnyddio symudedd rydd



NEWID GWIRIONEDDOL: YM MAES CYFIAWNDER

Y Blaid Geidwadol yw plaid cyfraith a threfn. Rydym am gadw rheolaeth Prydain dros ein system gyfiawnder. Rydym am sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel wrth iddynt gerdded ar y stryd ac yn ddiogel yn eu cartrefi gyda'r nos – nid oes fawr ddim byd yn bwysicach na hynny.

Rydym ni yn y Blaid Geidwadol yn glir: rydym am weld Senedd San Steffan a'r deddfwrfeydd datganoledig yn llysoedd Prydain

yn cymhwyso'r cyfreithiau hynny, a heddluoedd yn penderfynu ar y ffordd orau o ymdrin â thor-cyfraith. Dyna pam ein bod wedi arfer hawl y DU i gael ein heithrio rhag Cytuniad cyn-Lisbon ar yr heddlu a chyfiawnder troseddol yn Ewrop ac wedi nodi'n glir na fydden ni'n ymuno ag unrhyw ddeddfwriaeth cyfiawnder troseddol na heddlu'r UE heb graffu Seneddol priodol.

Wrth gwrs, mewn rhai meysydd mae'n gwneud synnwyr i gydweithredu'n


ymarferol ar y lefel Ewropeaidd. Mewn cyfnod lle mae troseddu'n gynyddol symudol – lle gall gangiau weithredu dros ffiniau – rhaid gweithio gyda gwledydd eraill er mwyn cadw ein pobl yn ddiogel, p'un a yw hynny'n golygu adnabod troseddwr wrth fannau croesi ffiniau neu allgludo mewnfudwyr anghyfreithlon. Nid ydym am weld cod cyfiawnder troseddol i'r UE; ond rydym am weld cydweithredu ymarferol sy'n diogelu ein pobl rhag niwed.

YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI:

- ✓ Rydym wedi dewis cael ein heithrio rhag rheolaeth Ewropeaidd dros rannau helaeth o'n system gyfiawnder lle cafwyd ymyrraeth ddiangen a'n rheolau gwladol heb fawr ddim mantais amlwg i'n dinasyddion.
- ✓ Rydym wedi mynd ati i unioni'r diffygion yn y Warrant Arestio Ewropeaidd a anwybyddwyd gan y Llywodraeth Lafur. Drwy ein diwygiadau mawr i'r ffordd y mae'n gweithredu bydd yn dod yn adnodd cymesur ac effeithiol i ymladd troseddu a dod â'r troseddwr hynny gerbron llys barn.
- ✓ Rydym wedi gweithredu'r Cytundeb Trosglwyddo Carcharorion Ewropeaidd, sy'n galluogi'r DU i anfon troseddwr Ewropeaidd yn ôl i'w gwlad eu hunain er mwyn bwrw eu tymor o garchar.
- ✓ Rydym wedi gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyfnwid rhwng heddluoedd a'r manau rheoli ffiniau cenedlaethol, sy'n ei gwneud yn haws i atal troseddwr a mewnfudwyr anghyfreithlon rhag dod i mewn i'r DU.
- ✓ Rydym wedi helpu i gyflwyno Gorchymyn Diogelu Ewropeaidd fel y gall partneriaid – menywod fel arfer – sydd wedi dioddef trais yn y cartref ddibynnu ar orchymyn atal a roddir yn eu gwlad eu hunain, lle bynnag y maent yn yr UE.
- ✓ Rydym wedi defnyddio hawl y DU i gael ei heithrio rhag bod yn rhan o fwy o reolaeth gan yr UE dros bolisi lloches a mewnfudo.

YR HYN A WNAWN:

- Gwneud diwygiadau radical i gyfreithiau hawliau dynol a chyhoeddi cynllun manwl er diwygio y byddai llywodraeth Geidwadol yn ei roi ar waith ar unwaith: byddwn yn cael gwared ar Ddeddf Hawliau Dynol Llafur, cwtogi ar rôl Llys Hawliau Dynol Ewrop yn y DU a sicrhau mai ym Mhrydain yn hytrach nag yn Strasbwrg y mae Goruchaf Lys y DU.
- Pwyso am fwy o gydweithredu ymarferol i drechu terfysgaeth, troseddu a mewnfudo anghyfreithlon.
- Galw am fwy o gydweithredu Ewropeaidd yn y frwydr yn erbyn caethwasiaeth fodern, enwaedu benywod a phriodi dan orfod.
- Os penderfynwn fod yn rhan o'r Warrant Arestio Ewropeaidd unwaith eto, byddwn yn adeiladu ar ein diwygiadau er mwyn sicrhau nad yw'n gymwys i fân droseddau; y gall mesurau amgen gael eu defnyddio lle y bo modd; y gellir osgoi achosion o gadw pobl dan orchymyn cyn treial am gyfnodau hir ac na chaiff pobl eu hestraddodi am wneud pethau nad ydynt yn anghyfreithlon yn y DU.
- Sicrhau nad yw'r DU yn rhan o fesurau cysoni ym maes cyfraith droseddol, lloches, mewnfudo a rheoli ffiniau nad ydynt yn fuddiol i Brydain – gan gynnwys dweud 'na' i Swyddfa Erlynydd Cyhoeddus Ewropeaidd.



Rydyn ni eisiau
cadw rheolaeth
Prydain dros ein
system gyfiawnder,
ond gyda
chydweithrediad
ymarferol sy'n
amddiffyn ein pobl
rhag niwed

NEWID GWIRIONEDDOL: O RAN YNNI

Mae'r DU yn wynebu heriau gwirioneddol a sylweddol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, yn bennaf o ran ynni. Mae angen inni gael cyflenwad sicr o ynni am bris fforddiadwy, torri carbon er mwyn helpu i atal newid peryglus yn yr hinsawdd, a lleihau ein dibyniaeth ar un dechnoleg neu ffynhonnell gyflenwi benodol. Yn wir, mae'r hyn sydd wedi digwydd yn Wcraïn wedi seinio rhybudd i Ewrop am bwysigrwydd sicrhau ffynonellau

amrywiol o ynni.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae gan yr UE rai rolau pwysig i'w chwarae. Er enghraifft, rydym yn cefnogi'r polisi bod gwledydd yr UE yn cytuno ar nod hinsawdd cyffredin, ac yn defnyddio'r Cynllun Masnachu Allyriadau i ysgogi'r gostyngiadau hyn ledled Ewrop am y gost isaf bosibl. Mae hynny er budd pawb – ac er budd cenedlaethau i ddod.

Ond mae'n hanfodol hefyd ein bod yn cadw ein sofraniaeth ym maes ynni. I deuluoedd a busnesau ledled Prydain, mae biliau ynni yn gyfran fawr o'u cyllideb – ac er mwyn helpu i leihau'r gost hon, mae'n rhaid i ni gael rheolaeth dros ein cymysgedd ein hunain o ynni. Mae cyflenwad sicr o ynni yn un o ddyletswyddau sylfaenol llywodraeth genedlaethol ac ni ddylai hyn gael ei beryglu gan gytundebau na gweithredoedd yr UE.


YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI:

- ✓ Rydym wedi ategu uchelgeisiau Ewrop o ran yr hinsawdd drwy dorri carbon yma. Roedd allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU yn 2012 25% yn is nag yn 1990, diolch i gamau'r Llywodraeth i ddadgarboneiddio ein cyflenwad ynni.
- ✓ Rydym wedi datgloi ffynonellau newydd o ynni carbon isel drwy'r canlynol:
 - sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd gwerth £3.5 biliwn;
 - rhoi fframwaith ar waith sydd wedi golygu mai'r DU yw'r farchnad fwyaf atyniadol yn y byd ar gyfer ynni'r gwynt ar y môr ac wedi sicrhau'r gorsafoedd niwclear newydd cyntaf ers cenedlaeth megis Hinkley Point a'r Wylfa;
 - buddsoddi gwariant cyfalaf gwerth £1 biliwn ar ddal a storio carbon, a allai arbed dros £30 biliwn y flwyddyn i'r DU erbyn 2050.
- ✓ Rydym wedi gwella ein sicrwydd ynni drwy ddatgloi buddsoddiad ym Môr y Gogledd, a thrwy ddatblygu siâl y DU.
- ✓ Rydym wedi gwella ein sicrwydd ynni ymhellach drwy ymrwmo i ryngysylltu rhwydwaith pŵer y DU â gwledydd cyfagos.
- ✓ Rydym wedi atal ymgais gan yr UE i wahardd rhagor o ddrilio olew a nwy ar y môr, ar ôl cynigion y Comisiwn i or-reoleiddio'r diwydiant hwn.
- ✓ Rydym wedi atal ymgais gan yr UE i or-reoleiddio egin-ddiwydiant nwy siâl y DU, rydym wedi'i gefnogi drwy roi'r gyfundrefn dreth fwyaf cystadleuol yn Ewrop ar waith a phecyn cynhwysfawr i gymunedau lleol – gwerth £1 filiwn y flwyddyn ar gyfer safle arferol.
- ✓ Rydym wedi helpu pobl sy'n gweithio'n galed trwy dorri biliau ynni gan £50 ar gyfartaledd ac wedi deddfu i orfodi cwmnioedd ynni i roi pobl ar eu tariff isaf sy'n cwrdd â'u gofynion.

YR HYN A WNAWN

- Sicrhau bod yr UE yn cwblhau'r broses o greu marchnad ynni sengl ledled Ewrop, er mwyn sicrhau mwy o sicrwydd ynni a phrisiau is i ddefnyddwyr y DU.
- Sicrhau bod adolygiad strategol Comisiwn yr UE o sicrwydd ynni Ewropeidd ar gyfer y 25 mlynedd nesaf yn cael ei weithredu; bydd hwn yn ein helpu ymhellach i gynllunio ar gyfer dyfodol ynni'r DU.
- Gweithio gyda phartneriaid Ewropeidd megis Gwlad Pwyl i ddatblygu adnodd nwy siâl Ewrop yn llawn. Rydym wedi comisiynu tasglu ar y cyd a fydd yn cyflwyno adroddiad cyn diwedd y flwyddyn.
- Cefnogi cytundeb rhyngwladol uchelgeisiol a theg ar newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys ymgyrchu o blaid gwledydd yr UE yn torri allyriadau o leiaf 40% erbyn 2030.
- Cefnogi Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE a'i ddiwygio ymhellach fel y modd mwyaf costeffeithiol i wledydd yr UE dorri allyriadau.
- Sicrhau nad yw'r targed ynni adnewyddadwy arfaethedig ar gyfer 2030 yn gyfrwymol ar wledydd unigol yr UE. Er mwyn torri carbon mewn ffordd mor gosteffeithiol â phosibl, dylid rhoi cyfle i dechnolegau niwclear, dal carbon ac ynni adnewyddadwy gystadlu ar delerau teg.
- Gweithio gyda phartneriaid Ewropeidd er mwyn sicrhau y dylai pob gwlad gael yr hawl i ddewis eu cymysgedd o ynni.

Byddwn yn cadw
ein sofraniaeth
ynni: mae cyflenwi
ynni yn ddiogel yn
ddyletswydd waelodol
ar y llywodraeth
genedlaethol



NEWID GWIRIONEDDOL: I FFERMWYR, CYMUNEDAU PYSGOTA A’N HAMGYLCHEDD NATURIOL

Mae ffermwyr a chymunedau pysgota Prydain yn chwarae rhan hollbwysig ym mywyd y genedl ac yn helpu i gynnal economi wledig sy’n werth £211 biliwn y flwyddyn. Mae’r gweithgareddau hyn yn rhoi bwyd ar y bwrdd, yn gofalu am gefn gwlad ac maent wrth wraidd llawer o gymunedau. Ers blynyddoedd, roedd polisïau Ewropeaidd yn eu rhoi o dan anfantais – ac ers blynyddoedd mae’r Ceidwadwyr wedi brwydro i newid hynny.

Mae gan ddiwydiant ffermio Prydain enw da byd-eang, a hynny’n gwbl haeddiannol, am ei gynnyrch o safon, ei systemau olrhain cadarn a’i safonau cynhyrchu trwyadl. Wrth i boblogaeth

y byd barhau i dyfu ac wrth i chwaeth a deietau pobl ddatblygu, credwn fod cyfleoedd anhygoel i werthu bwyd a diod Prydain dramor. Dyna pam mae’r Ceidwadwyr fel Llywodraeth wedi blaenoriaethu agor marchnadoedd newydd i gynhyrchwyr o Brydain.

Rydym yn cefnogi cymunedau gwledig. Dyna pam mae’r Llywodraeth hon wedi rhoi blaenoriaeth fawr ar wario ar amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn ogystal â chreu Cronfa Adfer Llifogydd Ffermio gwerth £10 miliwn i helpu’r rhai y mae’r tywydd eithafol diweddar wedi effeithio arnynt. Rydym hefyd wedi datgan ein cenhadaeth i gwblhau’r broses o gyflwyno band eang cyflym,

sef technoleg a all wir gau’r bwllch rhwng trefol a gwledig.

Arferai’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin fod yn drychinebus. Rydym wedi brwydro’n galed dros ddiwygiadau helaeth – ac wedi ennill. Heddiw, mae micro-reoli Brwsel yn cael ei wrthdroi; mae’r arfer ofnadwy o daflu pysgod bwydadwy yn ôl i’r môr er mwyn bodloni gofyniad biwrocraidaidd yn cael ei ddiddymu; a cheir ymrwymiad cyfreithiol gyfrwymol bellach i bysgota ar lefelau cynaliadwy. Golyga hyn oll fod gan gymunedau pysgota heddiw, o Ucheldiroedd yr Alban i Gernyw, fwy o ddiogelwch a thawelwch meddwl.

YR HYN RYDYM WEDI’I GYFLAWNI:

- ✓ Rydym wedi agor 112 o farchnadoedd i anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Er enghraifft, rydym wedi:
 - llofnodi cytundeb ynglŷn â chig mochyn â Tsieina sydd wedi cyfrannu at dwf o £9 miliwn yn y farchnad cig mochyn, yn ogystal â thwf o £12 miliwn mewn crwyn;
 - sicrhau cytundeb ynglŷn â chig eidion i Singapôr gwerth hyd at £10 miliwn y flwyddyn.
 - llunio cytundeb â Tsieina ynglŷn â deunydd genetig anifeiliaid sydd, ynghyd ag allforion o foch byw, yn werth hyd at £45 miliwn dros bum mlynedd.
- ✓ Rydym wedi helpu pysgotwyr Prydain i reoli eu busnesau eu hunain drwy gael gwared ar ficro-reoli aneffeithiol Brwsel, gan ein galluogi i weithio gyda’n cymdogion agosaf.
- ✓ Rydym wedi pwysu am ddiwygiadau radical i’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, wedi brwydro dros dargedau llymach sy’n seiliedig ar wyddoniaeth er mwyn sicrhau pysgota cynaliadwy ac wedi rhoi terfyn ar y polisi cywilyddus o daflu pysgod hollol fwydadwy yn ôl i’r môr.
- ✓ Rydym wedi diwygio Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop sy’n cefnogi cymunedau pysgota Prydain, ac ar yr un pryd wedi rhoi terfyn ar gymorthdaliadau sy’n ariannu arferion pysgota dinistriol.
- ✓ Rydym yn parhau i hyrwyddo’r safonau uchaf ym maes lles anifeiliaid ac yn Ewrop rydym wedi arwain y gad drwy bwysu am gamau cyfreithiol llym yn erbyn gwledydd sydd wedi methu â chadw at y gwaharddiadau i’w cyflwyno fesul cam ar fagu ier mewn cewyll confensiynol a chorau magu i hychod drwy’r UE cyfan.

YR HYN A WNAWN:

- Pwysu am ddiwygiadau pellach i’r PAC fel y bydd yn costio llai ac yn cynnig gwell gwerth am arian.
- Sicrhau y caiff y diwygiadau newydd i’r PAC eu gweithredu a’u dilyn gan bob un o wledydd yr UE, fel na chaiff ein ffermwyr eu rhoi o dan anfantais annheg.
- Sicrhau cyfleoedd allforio pellach i ffermwyr Prydain yn yr UE ac yn fyd-eang, ac ymladd i sicrhau y caiff ffermio ei gynnwys mewn cytundebau masnach rydd megis yr un ag UDA.
- Lleihau biwrocraatiaeth er mwyn lleihau’r costau i bob busnes o leiaf £1 biliwn erbyn 2019.
- Sicrhau y caiff y gwaharddiad ar waredu pysgod hollol fwydadwy, ynghyd â’r diwygiadau pellach i bysgodfeydd eu gweithredu’n llawn.
- Adeiladu ar y llwyddiant hwn i sicrhau diwygiadau pellach a rhoi mwy o gyfle i bobl leol leisio barn ynglŷn â dyfodol y diwydiant pysgota.
- Gweithio i wrthsefyll pysgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio.
- Cefnogi’r broses o gyflwyno labelu bwyd er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch ble a sut y caiff ein bwyd ei gynhyrchu, tra’n osgoi rheolau beichus i gwmnïau bach.
- Mynd ati i wella safonau lles anifeiliaid a sicrhau bod y rheolau yn cael eu gorfodi’n briodol ledled yr UE.

Rydyn ni'n ymladd er mwyn rhoi diogelwch a thawelwch meddwl i ffermwyr a chymunedau Prydain



YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI: parhad

- ✓ Rydym wedi brwydro dros bolisi Addasu Genetig sy'n seiliedig ar wyddoniaeth yn yr UE er mwyn sicrhau bod ffermwyr Prydain yn dal yn gystadleuol, cynnig gwell gwerth i ddefnyddwyr Prydain a rhoi hwb arall i safle diwydiannau biodechnoleg a gwyddorau bywyd Prydain fel rhai sy'n arwain y byd.
- ✓ Rydym wedi rhoi'r cymorth sydd ei angen ar ein ffermwyr i gystadlu:
 - wedi sicrhau bod 8,000 yn llai o arolygiadau godro y flwyddyn ers 2011;
 - wedi cefnogi cynllun y Tractor Coch, sy'n rhoi hyder i ddefnyddwyr yn y bwyd a brynant ac sy'n hybu ffermio Prydain;
 - wedi cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau yn ein system fwyd a ddatgelwyd gan sgandal y cig ceffyl, gan gynnwys gofyn i'r Athro Chris Elliott arwain adolygiad annibynnol tryloyw;
 - wedi hyrwyddo'r defnydd o enwau bwyd wedi'u hamddiffyn sy'n dangos rhagoriaeth ffermio Prydain, fel Halen Môn, Cig Eidion a Chig Oen Gorllewin Lloegr, Caws Wensleydale Swydd Gaerefrog a Chig Mochyn 'Gloucestershire Old Spots' traddodiadol.
 - wedi buddsoddi £790 miliwn i ymestyn band eang cyflym i 95% o'r DU erbyn 2017. Bydd awdurdodau lleol yn rhoi arian cyfatebol. Mae prosiect Cyflymu Cymru ar y trywydd iawn i ddarparu band eang cyflym i 96% o gartrefi a busnesau yng Nghymru erbyn gwanwyn 2016.
- ✓ Rydym wedi sefydlu'r Parthau Morol Gwarchoddedig cyntaf gyda 27 o ardaloedd wedi'u diogelu, yn cwmpasu dros 9,000 cilometr sgwâr, ynghyd ag ymrwymiad i ddynodi hyd at 100 o Barthau eraill yn ystod y tymor Seneddol nesaf. Mae 10% o foroedd y DU wedi'i diogelu bellach, a chwarterr dŵr mewndirol Lloegr.
- ✓ Rydym wedi lansio ymgyrch genedlaethol i blannu coed – The Big Tree Plant – sydd eisoes wedi arwain at blannu 100,000 o goed a chaiff miliwn o goed eu plannu erbyn 2015.



NEWID GWIRIONEDDOL: DROS BRYDAIN DDIOGEL

Mae ffawd Prydain ynghlwm wrth y byd ehangach. Gall cynllwyn terfysgol a ddyfeisiwyd filoedd o filltiroedd i ffwrdd beryglu ein strydoedd. Gall cytundebau a lunnir yn Tsieina neu India greu miloedd o swyddi yma. Gall anghydfod mewn gwledydd pellennig arwain at ymfudo mawr yma. Felly mae trechu tlodi byd-eang, datrys anghydfod a lledaenu democratiaeth – sef ymgysylltu â'r byd – yn sicr er budd y wlad.

Ni ddylai polisi'r UE fyth ddisodli penderfyniadau cenedlaethol a pholisi amddiffyn cenedlaethol, ac ni ddylai ychwaith ddyblygu na thanseilio gwaith NATO, y mae'n rhaid iddo fod wrth wraidd ein diogelwch. Pan fo polisi'r UE yn gwrthdaro â'n buddiannau, neu'n tansellio sofraniaeth genedlaethol, rydym yn gweithredu – fel y gwnaethom drwy roi feto ar greu pencadlys milwrol i'r UE.

Gall polisi tramor a diogelwch yr UE fod yn ffordd bwysig o hyrwyddo budd y wlad drwy greu byd mwy sefydlog a ffyniannus. Gyda'n gilydd gallwn ddylanwadu ar ein cymdogaeth ehangach, boed hynny drwy gefnogi datblygu economaidd yn Ne Ewrop, neu helpu gwledydd i'r dwyrain o'r UE – megis Wcrain, Moldofia a Georgia – i ddilyn llwybr mwy agored a democrataidd.

Byddwn yn parhau i amddiffyn yn gadarn sofraniaeth a chyfanrwydd tiriogaethol Wcrain a rheol ryngwladol y gyfraith. Rydym am weld cydberthnasau da rhwng Wcrain a Rwsia ond credwn hefyd fod ganddi yr un hawl ag unrhyw wlad Ewropeaidd arall i benderfynu ar ei dyfodol ei hun.

Mae pobl Wcrain wedi dangos eu bod wedi cael hen ddigon o'r llygredd hollbresennol sydd wedi llesteirio eu

gwlad. Byddwn yn eu cefnogi yn eu hymdrechion i greu democratiaeth wirioneddol lle mae'r gyfraith yn cael ei chymhwyso'n deg ac yn llawn i bawb. Mae gan yr UE rôl hollbwysig i'w chwarae hefyd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid Ewropeaidd fel y bydd yr UE yn gweithio gyda phobl Ukrain tuag at y nodau hyn.

Mae'r hyn sydd wedi digwydd yn Wcrain wedi bod yn brawf digamsyniol o'r perygl i Ewrop os yw'n dibynnu gormod ar Rwsia am ei hynni. Dylai pob gwlad Ewropeaidd bellach anelu at fwy o annibyniaeth a sicrwydd ynni fel nod hirdymor; rhaid mai hynny yw un o'r costau hirdymor i Lywodraeth Rwsia yn sgil ei hymddygiad tuag at Wcrain.


I Geidwadwyr ym Mrwsel, budd y wlad yw ein prif flaenoriaeth bob amser: diogelwch ein dinasyddion, a'r swyddi a'r cyfleoedd a grëwyd yma.

YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI:

- ✓ Rydym wedi cadw hawl Prydain i wneud ei phenderfyniadau ei hun.
- ✓ Rydym wedi diogelu NATO fel conglaen unrhyw ddiogelwch ac wedi atal ymgais i ddyblygu strwythurau amddiffyn.
- ✓ Rydym wedi arwain ymdrechion i weithredu ar y cyd ar lefel Ewropeaidd drwy gydweithredu rhwng gwladwriaethau sofran ar y materion rhyngwladol mwyaf difrifol:
 - herio Rwsia ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn Wcrain;
 - sicrhau'r sancsiynau llymaf erioed gan yr UE ar Iran, sydd wedi peri i Lywodraeth Iran ddechrau negodi ynglŷn â'i rhaglen niwclear, y gobaith gorau dros heddwch yn y rhanbarth;
 - defnyddio sancsiynau'r UE yn llwyddiannus i roi cymhelliad i Lywodraeth Byrma droi tuag at y rhyddid a'r natur agored gynyddol a welwn yn y wlad erbyn hyn;
 - darparu'r pencadlys ar gyfer cenhadaeth yn erbyn môr-ladrad oddi ar arfordir Somalia sydd wedi helpu i leihau ymosodiadau ar longau'n sylweddol;
 - ym Mali, rydym ni a'n cynghreiriaid yn helpu i gefnogi'r broses o sefydlu llywodraeth effeithiol mewn gwlad a fu bron ag ildio i derfysgaeth;

YR HYN A WNAWN:

- Parhau i amddiffyn sofraniaeth a chyfanrwydd tiriogaethol Wcrain a rheol ryngwladol y gyfraith yn gadarn.
- Sicrhau y caiff hawliau pobl Gibraltar eu parchu'n llawn, yn enwedig o ran y rhyddid i symud yn ddirwyst a pholisïau hedfan a morol.
- Sicrhau bod y polisi amddiffyn yn parhau i fod o dan reolaeth genedlaethol Prydain, gan gadw NATO a'r gydberthynas dros yr Iwerydd fel conglafeini ein polisi amddiffyn a diogelwch.
- Pwyso am farchnadoedd agored er budd diwydiannau amddiffyn Prydain, gan gyfrannu at dwf economaidd a swyddi pellach yma.
- Parhau i wella effeithiolrwydd ymdrechion yr UE i drechu tlodi yng ngwledydd tlotaf y byd, a sicrhau bod yr UE yn chwarae ei ran yn y gwaith o ymateb i argyfyngau dyngarol ledled y byd.
- Parhau i hyrwyddo gwaith David Cameron ar lefel yr UE drwy Arlywyddiaeth y DU ar y G8 i wrthsefyll osgoi trethi, hyrwyddo trolowder o ran perchenogaeth cwmnïau a chael gwared ar lygredd yn y diwydiannau cloddio.
- Cynyddu cyfleoedd i'r gwledydd tlotaf fasnachu â'r UE a chyda'i gilydd drwy agor marchnadoedd yr UE yn ehangach, lleihau cymorthdaliadau allforio'r UE a negodi Cytundebau Partneriaeth Economaidd hael.



Budd cenedlaethol
Prydain yw ein
blaenoriaeth gyntaf:
diogelwch ein
dinasyddion, a'r
swyddi a'r cyfleoedd
a grëir gartref

YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI: parhad

- rydym wedi hyrwyddo'n llwyddiannus fwy o gyfleoedd i Bacistan fasnachu â'r UE, gan gynnwys tariffau is sy'n rhoi cymorth hollbwysig i'w heconomi.
- ✓ Rydym wedi atgyfnerthu ein cynghrair â Ffrainc drwy lofnodi Cytundebau hanesyddol Tŷ Lancaster er mwyn gwella cydweithredu ym maes amddiffyn, gan gynnwys creu byddin ymdeithiol i gynnal ymgyrchoedd ar y cyd, cydweithredu agosach o ran caffael cyfarpar, a chyfleusterau ar y cyd i gefnogi ein harfau niwclear annibynnol.
- ✓ Rydym wedi chwarae rhan flaenllaw mewn ymdrechion rhyngwladol i gael gwared ar bla ffrwydron daear gwrth-bersonél.
- ✓ Yn Libya, arweiniodd y Deyrnas Unedig yr ymdrech ddiplomyddol a milwrol rhyngwladol a fu'n atal llywodraeth Gaddafi rhag lladd niferoedd mawr o'i bobl ei hun.
- ✓ Y DU fu'r rhoddwr cymorth rhyngwladol mwyaf ond un i helpu pobl Syria yn eu trallod ac rydym wedi chwarae rhan flaenllaw yn yr ymdrechion i ddod o hyd i ateb heddychlon i'r cythrwbl erchyll hwn.
- ✓ Yn Sri Lanca, diolch i gynnig yn y CU a noddwyd gan y DU, pan gawsom gefnogaeth yr UE a llawer o wledydd eraill, rydym wedi llwyddo i sicrhau ymchwiliad rhyngwladol annibynnol i honiadau o droseddau rhyfel. Dyna fydd y sail orau bosibl dros gyfamodi go iawn a gwell dyfodol i bobl Sri Lanca.

YR HYN A WNAWN: parhad

- Gweithio dros amgylchedd gwyrddach, gan gynnwys camau i dorri allyriadau carbon ledled Ewrop ac ymdrechion i gyfyngu gwresogi byd-eang i 2 radd.



- ✓ Os ydych am reoli cost Ewrop,
pleidleisiwch i'r Ceidwadwyr
- ✓ Os ydych am i Ewrop weithio dros fusnesau ym Mhrydain,
pleidleisiwch i'r Ceidwadwyr
- ✓ Os ydych am gadw'r Bunt a pheidio ag ymuno â'r Ewro,
pleidleisiwch i'r Ceidwadwyr
- ✓ Os ydych am i'n gwlad gadw rheolaeth dros ei ffiniau ei hun,
pleidleisiwch i'r Ceidwadwyr
- ✓ Os ydych am sicrhau nad yw Prydain yn rhan o becynnau
achub ardal yr Ewro,
pleidleisiwch i'r Ceidwadwyr
- ✓ Os ydych am weld mwy o reolaeth dros gyfiawnder troseddol,
pleidleisiwch i'r Ceidwadwyr
- ✓ Os ydych am gael refferendwm mewn-allan i benderfynu a
ddylem aros yn yr UE,
pleidleisiwch i'r Ceidwadwyr

**ECONOMI GRYFACH GARTREF,
PARCH NEWYDD DRAMOR,
NEWID GWIRIONEDDOL YN EWROP.**

DIM OND GYDA'R CEIDWADWYR



Ceidwadwyr
Cymreig

Welsh
Conservatives